

# Teithio

Mae gwahanol fathau o deithio neu drafnidiaeth yn defnyddio llawer o ynni. Ynni yw'r pŵer sy'n gwneud i rywbeth weithio ac mae'r ynni sy'n gwneud i gerbydau weithio yn dod o danwydd ffosil. Mae tanwyddau ffosil yn cynnwys glo, olew a nwy. Mae petrol a diesel yn cael eu gwneud o olew. Rhyw ddiwrnod, bydd tanwyddau ffosil yn dod i ben.

<https://www.youtube.com/watch?v=2LsSPFICUu0>



# Beth yw tanwydd?

Fedrwch chi feddwl am wahanol fathau o danwydd?

Ydy'n hi'n bosib ail-ddefnyddio'r tanwydd?

O ble mae'n dod?

Tanwydd

Pa danwydd rydych chi'n ei ddefnyddio?

Ydy hi'n bosib creu tanwydd? Sut?

Sut cafodd ei greu?

Ydy defnyddio tanwydd yn ddrwg i'r amgylchedd?

# Ewch ati i ymchwilio a chymharu tanwydd gyda'ch partner

Petrol

Tebygrwydd

Trydan

Sut maen  
nhw'n  
wahanol?

Sut maen  
nhw'n  
debyg?

Gwahaniaethau  
gan ystyried

Cynaliadwyedd

Cost

Llygredd

Ceir sy'n gyfrifol am ryddhau llawer o'r nwyon sy'n niweidiol i'r amgylchedd.

Ffyrdd amgen sydd ar gael i bweru cerbydau

Sut mae'n gweithio?

Darganfyddwch beth yw'r peiriant tanio mewnol.  
Rhowch sylw penodol i.....

Hanes datblygu'r peiriant tanio mewnol

Y nwyon y mae'n eu rhyddhau

Y tanwydd y mae'n ei ddefnyddio

Y drwg neu'r lles y mae'n ei wneud i'r amgylchedd

Y dyfodol sydd i'r peiriant tanio mewnol



**Rhowch y wybodaeth mewn cyflwyniad Powerpoint a'i rannu â gweddill y dosbarth.**

Trafodwch y pwyntiau sydd o blaid ac yn erbyn ceir trydan a cheir petrol.

Ceir trydan    YN ERBYN    Ceir petrol

**Car trydan / solar**

**O blaid:**

**Yn erbyn:**

**Car petrol**

**O blaid:**

**Yn erbyn:**





**Ceir trydan:**

<https://www.youtube.com/watch?v=8cov7cAY8No>

Ewch ati i ddylunio a gwneud model o gar sy'n rhedeg ar drydan sy'n cael ei gynhyrchu gan baneli solar ffotofoltäig.


Mae'r llun yn dangos rhai o'r cydrannau sydd eu hangen i adeiladu'r car.

Ydych chi'n eu hadnabod? Allwch chi eu henwi nhw?




# Dyma sut mae'r gêr criplan yn gweithio...

<https://www.youtube.com/watch?v=S3XAeMCeZr0&feature=youtu.be>





**Dyma gêr cripian.  
Mae'n bosib iawn y  
byddwch yn  
defnyddio un o'r  
rhain. Beth, yn eich  
barn chi, yw ei  
bwrpas?**




# Dylunio


Cyn i chi ddechrau ar y gwaith dylunio, meddyliwch am nodweddion a fyddai'n effeithio ar berfformiad y car. Gall y rhain fod yn feini prawf llwyddiant, e.e.


Pwysau'r car



Lleoliad y paneli ar y car



# Edrychwch ar yr esiamplau hyn...








Gêr  
mwydyn

Siasi o bren



Mae cymaint o boteli plastig yn cael eu taflu ar hyd y lle. Yn lle rhoi poteli yn y bin ailgylchu'n syth, beth am eu defnyddio i wneud rhywbeth arall? Beth am ddefnyddio potel i greu siasi i'ch cerbyd? Dewch â chasgliad o boteli i'r ysgol. Dewiswch y rhai sydd fwyaf addas i fod yn sylfaen dda i'r cerbyd.





Dyma enghraifft o siasi syml. Potel blastig gyda thyllau ynddi i ddal yr echel. Gallwch osod y paneli a'r motor ar hwn a'i addurno fel rydych chi'n ei ddymuno.





Lleoli'r echel. Mae'n rhaid i'r ddwy echel redeg yn gyfochrog â'i gilydd.

Beth fyddai'n digwydd petaen nhw ddim yn gyfochrog?

# Beth am ffyrdd amgen o deithio?



Ymchwiliwch ar y we i  
wahanol ffyrdd o deithio  
sydd ddim yn defnyddio  
tanwydd.



**Seiclo:** <https://www.youtube.com/watch?v=mbrPbY00zfl>